



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Rheoli ansawdd aer a sŵn lleol yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: 13 Medi 2016
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 6 Rhagfyr 2016

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig newidiadau i'r ffordd y bydd Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru yn rheoli effeithiau llygredd aer a sŵn yn eu hardaloedd. Mae'n cynnig gwneud hyn drwy ddiwygio, drwy gyfrwng canllawiau Llywodraeth Cymru, y drefn ar gyfer rheoli ansawdd aer lleol a sefydlwyd o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995, a thrwy ddangos sut mae asesu ansawdd aer a mapiau sŵn cenedlaethol yn gallu llywio a dylanwadu ar waith arall gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru, yn enwedig wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Sut i ymateb:

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad mewn ar unrhyw un o'r ffyrdd isod:

Drwy'r ffurflen ar-lein sydd ar gael at:

<https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/rheoli-ansawdd-aer-swn-yng-nghymru>

Llwytho i lawr y [ffurflen ymateb](#) ac e-bostio i:

AARh@cymru.gsi.gov.uk neu,

Llwytho i lawr, llenwch a dychwelwch gopi caled o'r [ffurflen ymateb](#) i:

Cangen Ansawdd a Rheoleiddio'r Amgylchedd
Llywodraeth Cymru
Llawr 3 De
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

**Rhagor o
wybodaeth a
dogfennau
cysylltiedig**

**Mae fersiwn print bras, Braille a fersiynau mewn
ieithoedd eraill o'r ddogfen hon ar gael drwy wneud
cais.**

Manylion cyswllt

Enw: Cangen Ansawdd a Rheoleiddio'r Amgylchedd

Cyfeiriad: Llywodraeth Cymru
Llawr 3 De
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: aarh@cymru.gsi.gov.uk

Ffôn: 029 2082 3145

Diogelu data

Sut y bydd y safbwyntiau a'r wybodaeth a roddwch inni yn cael eu defnyddio,

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhwch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig inni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth

Cynnwys

Rhagair y Gweinidog	1
1 Pam mae llygredd yn yr aer yn fater o bwys	2
2 Y dirwedd gyfreithiol	4
3 Rheoli ansawdd aer lleol.....	6
4 Cynllun gweithredu ynghylch sŵn i Gymru	10
5 Deddfwriaeth ddiweddar yng Nghymru	13
6 Cynigion ar gyfer newid	15
7 Ffurflen ymateb i'r ymgynghori.....	21
Atodiad A Dangosyddion ansawdd aer Cymru.....	22

Rhagair y Gweinidog



Prin yw'r materion amgylcheddol sy'n cael dylanwad mor uniongyrchol ar ein hiechyd a'n lles â llygredd yn yr aer yr ydym yn ei anadlu a'r sŵn sydd o'n cwmpas yn ein bywydau bob dydd. Mae'r ddeddfwriaeth ddomestig ac Ewropeaidd yr ydym wedi ei hetifeddu yn gryf o ran nodi'r problemau, fodd bynnag, nid yw wedi cael fawr o lwyddiant, hyd yma, o ran eu datrys. Dylem allu gwneud yn well na hyn, o ran atal problemau rhag codi yn y lle cyntaf ac o ran dod o hyd i atebion arloesol i'r problemau presennol y mae'n rhaid inni ddelio â hwy yn awr.

Hyd yma, mae ymdrechion i fynd i'r afael â'r problemau llygredd aer a sŵn wedi bod yn llai effeithiol oherwydd yr hyn a elwir yn gyffredin yn 'weithio mewn seilos'. Dyma beth sy'n digwydd pan fyddwn yn dibynnu ar bobl i ganolbwyntio ar faterion unigol yn hytrach na chymryd perchnogaeth ar y cyd o bryderon cyffredin a'r cysylltiadau rhyngddynt. Mae cysylltiad clir rhwng llygredd aer, sŵn a'u hachosion ac, felly, dylid sicrhau cysylltiad clir rhwng y camau a gymerwn i ymdrin â hwy. Os bydd y sector cyhoeddus yng Nghymru yn croesawu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn chwilio am atebion hirdymor integredig a chydweithredol gwell i'n problemau, gallwn sicrhau newid gwirioneddol. Nid oes a wnelo ymdrin â phroblemau megis llygredd aer a sŵn â blaenoriaethau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd. Mae'n ymwneud â dod o hyd i atebion integredig i broblemau niferus, er mwyn creu'r amodau sydd eu hangen ar gyfer llesiant hirdymor pobl yn eu cymunedau.

Mae'r pumed ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf, sef cyfranogiad, hefyd yn hollbwysig, a dyna pam rwy'n gobeithio cael ymatebion eang a chreadigol i'r ymgynghoriad hwn. Ni ddylai'r lefel o ddiogelwch i iechyd dynol a'r amgylchedd leihau o ganlyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd. Gyda'r sbardun a'r momentwm a gyflwynwyd yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'n Deddf yr Amgylchedd newydd, rwy'n hyderus bod gennym y dulliau i ganfod yr atebion sydd eu hangen a'u rhoi ar waith.

Lesley Griffiths AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

1 Pam mae llygredd yn yr aer yn fater o bwys

- 1.1 Bob munud o bob diwrnod, bydd cyflwr ein lles yn dibynnu ar ansawdd yr aer y byddwn yn ei anadlu a'r synau y byddwn yn eu clywed, hyd yn oed pan fyddwn yn cysgu. Mae arogleuon a synau braf yn cyfoethogi ein bywydau. I'r gwrthwyneb, mae llygredd yn yr aer, boed hynny ar ffurf sylweddau niweidiol ynteu sŵn, yn gallu bod yn niweidiol i'n hiechyd a'n lles a hynny yn y fan a'r lle ac yn y tymor hir.
- 1.2 Amcangyfrifir bod llygredd yn yr aer yn cwtogi oes unigolion sy'n byw yn y Deyrnas Unedig 7-8 mis ar gyfartaledd¹. Y prif lygryddion yn yr aer sy'n destun pryder o ran iechyd y cyhoedd yw **nitrogen deuocsid (NO₂)** a **deunydd gronynnol (PM_{2.5} a PM₁₀)**. Yng Nghymru priodolir rhyw 1,300 o farwolaethau a cholli 13,500 o flynyddoedd o fywyd bob blwyddyn i PM_{2.5}² yn unig, ac amcangyfrifwyd bod llygredd yn yr aer yn y Deyrnas Unedig yn costio tua £20 biliwn y flwyddyn³. Mae crynodiadau o lygryddion yn dibynnu'n fawr ar eu lleoliad oherwydd bod traffig, ffynonellau domestig, diwydiannol ac amaethyddol yn dylanwadu arnynt, yn ogystal â ffynonellau sydd ymhellach i ffwrdd a ffactorau meteorolegol. Bydd unigolion a phoblogaethau mewn ardal hefyd yn amrywio o ran i ba raddau y bydd llygredd yn effeithio arnynt. Rhai o'r grwpiau sy'n agored i niwed yw pobl hŷn, oedolion sydd â salwch cyfyngol tymor hir, a babanod a phlant yn enwedig, oherwydd bod niwed a gaiff rhywun ym more oes yn cael dylanwad sy'n para ymhell i'r dyfodol. Gall llygredd aer, afiechyd a thlodi gyfuno gan greu baich afiechyd trymach ac anghymesur rhwng rhanbarthau ac oddi mewn iddynt.
- 1.3 Bydd sŵn yn effeithio ar bobl yn bennaf drwy darfu ar eu cwsig a'u cythruddo ond hefyd drwy gynyddu'r risg o gyflyrau iechyd sy'n gysylltiedig â gorbwysedd ac effeithio ar gynhyrchiant a dysgu. Y gwerth ceidwadol a roddir ar hynny yn y Deyrnas Unedig yw oddeutu £10 biliwn y flwyddyn⁴. Yn ôl mapiau sŵn⁵ a gynhyrchwyd yn 2012, mae cartrefi mwy na 200,000 o bobl yng Nghymru yn agored i lefelau sŵn traffig sy'n uwch na chanllawiau sŵn Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer oriau'r nos. I'r gwrthwyneb, mae mannau tawel, yn enwedig y rheini lle mae byd natur yn bresennol, yn gallu helpu pobl i ymlacio a gwella'u hiechyd a'u lles.

¹ Gweler https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/69336/pb1265_4-air-quality-strategy-vol1-070712.pdf.

² Gweler <https://www.gov.uk/government/publications/estimating-local-mortality-burdens-associated-with-particulate-air-pollution>.

³ Gweler <https://www.rcplondon.ac.uk/projects/outputs/every-breath-we-take-lifelong-impact-air-pollution>.

⁴ Gweler <https://www.gov.uk/noise-pollution-economic-analysis>. Amcangyfrif ar gyfer Lloegr yw hyn yn unig ac nid yw'n cynnwys sŵn cymdogion.

⁵ Gweler <http://data.wales.gov.uk/apps/noise/?lang=cy> neu lawrlwythwch y data o <http://lle.gov.wales/home?lang=cy>.

- 1.4 Bydd llygredd aer a llygredd sŵn yn aml yn deillio o'r un ffynonellau, yn enwedig trafndiaeth ar y ffyrdd a gweithgareddau diwydiannol. Felly, bydd ardaloedd lle mae ansawdd yr aer yn wael yn aml yn cyd-daro neu'n gorgyffwrdd ag ardaloedd lle mae lefelau'r sŵn yn uchel. Hyd yn oed pan na fydd hyn yn wir, gall ansawdd aer gwael mewn un lleoliad a lefelau uchel o sŵn mewn lleoliad cyffiniol fod yn gysylltiedig â'i gilydd oherwydd y ffordd y caiff traffig ei reoli yn yr ardal ehangach.
- 1.5 Mae tua 40 o ardaloedd rheoli ansawdd aer wedi'u datgan gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru (un ar gyfer PM₁₀, y gweddill ar gyfer NO₂, ac mae 247 o ardaloedd blaenoriaeth sy'n gysylltiedig â sŵn traffig y ffyrdd a'r rheilffyrdd wedi'u dynodi gan Weinidogion Cymru.
- 1.6 Mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd rheoli ansawdd aer ac ardaloedd blaenoriaeth yn debygol fod yn agored i grynodiadau uwch o lygredd aer a sŵn na phobl mewn mannau eraill. Serch hynny, statws 'heb drothwy' sydd i'r llygryddion aer sy'n destun pryder o safbwynt iechyd y cyhoedd. Mae hyn yn golygu nad oes y fath beth â lefel 'ddiogel', ond mae lefelau'r sŵn a ddefnyddir i ddynodi ardaloedd blaenoriaeth yn cael eu gosod yn gymharol uchel er mwyn canolbwyntio'r adnoddau ar yr ardaloedd sydd wedi'u llygru fwyaf. Felly, mae'r rhan fwyaf o'r baich iechyd y gellid ei osgoi y cyfeiriwyd ato uchod yn digwydd wrth i'r boblogaeth ddod i gysylltiad â llygredd y tu allan i'r Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer a'r ardaloedd blaenoriaeth. Felly, ni ddylid ystyried amcanion cenedlaethol ar gyfer ansawdd aer na'r lefelau sŵn a ddefnyddir i ddynodi'r ardaloedd hyn yn lefelau 'diogel'. Gall llygredd aer a sŵn amharu ar iechyd ac ansawdd bywyd ar lefelau cysylltiad is, a dibynnu ar amgylchiadau'r unigolyn sy'n agored iddynt.
- 1.7 Gall llygredd aer a sŵn amharu hefyd ar ffurfiau sensitif ar fywyd gwyllt a chynefinoedd naturiol. Mae trefniadau rheoli ansawdd aer a sŵn lleol yn canolbwyntio'n bennaf ar bobl sy'n dod i gysylltiad â hyn, ac anaml y bydd camau sy'n ceisio gostwng llygredd mewn ardaloedd preswyl lle mae'r broblem yn ddifrifol, ac sydd wedi'u diffinio mewn ffordd gyfyng, yn arwain at fanteision sylweddol i fyd natur. Serch hynny, mae camau i ostwng lefelau'r llygredd y bydd y boblogaeth drwyddi draw'n dod i gysylltiad ag ef, drwy leihau'r allyriadau'n gyffredinol, yn golygu hefyd y bydd rhywogaethau a chynefinoedd yn llai tebygol o ddod i gysylltiad â llygredd. Dylent hefyd olygu bod llai o garbon deuocsid yn cael ei ollwng i'r amgylchedd, a lleihau cyfraniad Cymru at newid yn yr hinsawdd fyd-eang.

2 Y dirwedd gyfreithiol

2.1 Mae'r fframwaith deddfwriaethol sydd ar waith ar hyn o bryd i amddiffyn pobl ac amgylchedd Cymru rhag llygredd yn yr aer yn gymhleth. Mae'n cynnwys:

- y drefn niwsans statudol a sefydlwyd o dan Ddeddf Amddiffyn yr Amgylchedd 1990;
- y drefn rheoli mwg a sefydlwyd o dan Ddeddf Aer Glân 1993;
- y drefn rheoli ansawdd aer lleol a sefydlwyd o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995;
- Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010, sydd wedi'u sbarduno'n rhannol gan ddeddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd, megis y Gyfarwydddeb Allyriadau Diwydiannol;
- Cyfarwydddeb Ansawdd Aer yr Amgylchedd, sy'n gosod terfyn gorfodol a gwerthoedd targed ar gyfer ansawdd aer yn aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd;
- y Gyfarwydddeb Sŵn Amgylcheddol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd gynhyrchu mapiau sŵn a chynlluniau gweithredu ar gylch pum mlynedd;
- deddfwriaeth sy'n cyfyngu ar lygredd aer a sŵn sy'n cael ei allyrru o gerbydau a pheiriannau a roddir ar y farchnad;
- deddfwriaeth sy'n berthnasol i ddatblygiadau newydd arfaethedig, megis Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a'r Gyfarwydddeb Asesu Effeithiau Amgylcheddol;
- deddfwriaeth sy'n rhoi cytuniadau rhyngwladol ar waith, megis Confensiwn UNECE ar Lygredd Aer Trawsffiniol Ystod-pell, Confensiwn Stockholm ar Lygryddion Organig Parhaus a Chonfensiwn Minamata ar Arian Byw;
- Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013;
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

2.2 Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw:

- archwilio a oes angen diwygio, drwy ganllawiau statudol, golofn ganolog ein deddfwriaeth ddomestig sy'n ymwneud ag ansawdd aer, y drefn rheoli ansawdd aer lleol a sefydlwyd o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995;
- adolygu'r cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yn hyn tuag at roi'r cynllun gweithredu ynghylch sŵn i Gymru 2013-2018 ar waith – cynllun sy'n arddel agwedd fwy cyfannol at reoli sŵn nag y mae gofynion cyfyng y Gyfarwyddeb Sŵn Amgylcheddol;
- tynnu sylw at yr angen i integreiddio'r ddau faes gweithgarwch hyn yn well, â'i gilydd yn ogystal ag â meysydd polisi eraill;
- awgrymu sut y gellir eu gwneud yn fwy effeithiol drwy greu cysylltiadau rhwng dyletswyddau presennol Awdurdodau Lleol a dyletswyddau newydd Cyfoeth Naturiol Cymru o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a chyrff cyhoeddus penodol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

2.3 Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio ag Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus eraill i wella'u polisi cynllunio cenedlaethol a'r canllawiau ynghylch llygredd aer a sŵn.

2.4 Dim ond yr hyn yr ydym wedi'i gynllunio ar gyfer blwyddyn gyntaf y Cynulliad hwn yw hyn. Bydd Llywodraeth Cymru'n cynnal adolygiad llawnach o'r deddfwriaeth sy'n trosi Cyfarwyddebau'r Undeb Ewropeaidd ynghylch ansawdd aer a sŵn pan fyddwn yn fwy clir ynglŷn â thelerau'r Deyrnas Unedig yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, er mwyn sicrhau ein bod yn cadw'r fframwaith cyfreithiol mwyaf effeithlon ac effeithiol i warchod pobl ac amgylchedd Cymru.

2.5 Yn ogystal ag ymgynghori ynglŷn â'r newidiadau penodol y bwriadwn eu cyflwyno yn ystod blwyddyn gyntaf tymor newydd y Cynulliad, rydym hefyd am edrych y tu hwnt i'r cynigion hyn, ymhellach i'r dyfodol. Mae cwestiwn agored ar ddiwedd yr ymgynghoriad hwn sy'n gwahodd barn pobl am beth arall y gellid ei wneud gyda golwg ar ansawdd aer a sŵn yn ystod y Pumed Cynulliad (2016-2021). Edrychwn ymlaen at glywed eich awgrymiadau.

3 Rheoli ansawdd aer lleol

- 3.1 Drwy reoliadau⁶, mae Gweinidogion Cymru wedi gosod amcanion ansawdd aer cenedlaethol ar gyfer amrywiaeth o lygryddion ac wedi cyhoeddi canllawiau statudol y mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol roi sylw iddynt wrth reoli ansawdd aer lleol.
- 3.2 O dan y trefniadau presennol, bydd Awdurdodau Lleol yn monitro llygryddion aer yn rheolaidd, gan ganolbwyntio ar y meysydd y tybir eu bod yn peri'r risg fwyaf o fethu â chydymffurfio â'r amcanion ansawdd aer cenedlaethol. Byddant yn cyflwyno asesiadau diweddarau a sgrinio i Lywodraeth Cymru bob tair blynedd ac adroddiadau cynnydd yn y blynnyddoedd rhwng hynny. Os bydd y crynodiadau o lygryddion yn croesi trothwy'r amcanion ansawdd aer cenedlaethol, bydd Awdurdodau Lleol yn cynnal ac yn cyflwyno asesiad manwl. Os cadarnheir nad ydynt yn cydymffurfio â'r safon, byddant yn datgan Ardal Rheoli Ansawdd Aer. Ar ôl datgan Ardal Rheoli, dylai'r Awdurdod Lleol weithio gydag asiantaethau partner eraill a'r cyhoedd i lunio cynllun gweithredu ynghylch ansawdd aer lleol. Mae hyn yn cynnwys y camau i'w cymryd er mwyn cydymffurfio â'r amcanion ansawdd aer cenedlaethol a'r amserlenni a ragwelir ar gyfer eu rhoi ar waith. Anogir Awdurdodau Lleol hefyd i ystyried datblygu strategaeth ansawdd aer lleol i sicrhau ansawdd aer da ar draws y rhanbarth. I gael disgrifiad mwy manwl o'r drefn Rheoli Ansawdd Aer Lleol fel y mae ar hyn o bryd, gweler y canllawiau statudol, sydd ar gael i'w lawrlwytho yn <http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epg/airqualitypollution/airquality/guidance/?lang=cy> .
- 3.3 Yn 2012, cyhoeddodd Gweinidogion Cymru atodiad i'w canllawiau statudol, sy'n ymwneud â sŵn traffig y ffyrdd. Roedd yn dweud hefyd, lle bynnag y bydd cynlluniau gweithredu ynghylch ansawdd aer lleol yn blaenoriaethu camau o ran costau a buddion, y dylid rhoi ystyriaeth ddyledus i sŵn traffig y ffyrdd. Roedd yn dweud hefyd y dylid rhoi ystyriaeth arbennig i ardaloedd blaenoriaeth ac i unrhyw ardaloedd eraill lle bydd awdurdod lleol yn meddwl bod sŵn yn destun pryder, lle y gallai'r rhain fod yn agored i newidiadau yn lefelau'r sŵn oherwydd camau i reoli ansawdd yr aer.

⁶ Yn benodol, Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru) 2000, fel y'u diwygiwyd yn Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru) (Diwygio) 2002.

- 3.4 Mae canllawiau statudol Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gyflwyno asesiadau diweddarau a sgrinio ac adroddiadau cynnydd erbyn diwedd mis Ebrill bob blwyddyn, a rhoi cynllun gweithredu ynghylch ansawdd aer lleol ar waith o fewn 18 mis ar ôl datgan Ardal Rheoli Ansawdd Aer. Dylid hefyd adrodd bob blwyddyn am y cynnydd o ran rhoi cynlluniau gweithredu ar waith ynghylch ansawdd aer lleol. Ar hyn o bryd, bydd rhai Awdurdodau Lleol yn gwneud hyn mewn pryd, ond nid pob un. Mae hyn yn golygu bod y wybodaeth am gyflwr ansawdd yr aer ar hyn o bryd yng Nghymru yn anghyflawn a bod diffyg symbyliad i gymryd camau'n brydlon pan dorri'r amcanion ansawdd aer cenedlaethol.
- 3.5 O dan adran 85(3) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, os na fydd Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â'r amcanion ansawdd aer cenedlaethol neu os bydd heb gyflawni un o'i ddyletswyddau, caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi cyfarwyddiadau i'r Awdurdod Lleol yn mynnu ei fod yn cymryd camau penodol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r amcanion ansawdd aer cenedlaethol.
- 3.6 Ychydig iawn o Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer sydd wedi'u diddymu yng Nghymru hyd yn hyn, hyd yn oed lle mae cynlluniau gweithredu ynghylch ansawdd aer lleol wedi bod ar waith ers sawl blwyddyn.
- 3.7 Ar ôl argymhelliad gan y Prif Swyddog Meddygol ac ymrwymiad yn Natganiad Polisi cyntaf Cyfoeth Naturiol Cymru Llywodraeth Cymru, mae swyddogion wedi cynnal trafodaethau anffurfiol ag Awdurdodau Lleol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru drwy Fforwm Ansawdd Aer Cymru i gwmpasu'r ardaloedd lle y gellid gwella'r system Rheoli Ansawdd Aer Lleol yng Nghymru. Er enghraifft, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru ar hyn o bryd yn gwneud ymchwil i benderfynu sut y gellid gwella'r drefn Rheoli Ansawdd Aer Lleol bresennol i sicrhau'r integreiddio, y cydweithio a'r dylanwad mwyaf posibl ar iechyd y cyhoedd.
- 3.8 Un o'r rhesymau a roddir am aneffeithiolrwydd cynlluniau gweithredu ynghylch ansawdd aer lleol hyd yn hyn yw diffyg arian i'w rhoi ar waith. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn darparu arian ar gyfer rhoi cynlluniau gweithredu ynghylch ansawdd aer lleol ar waith drwy ei grant refeniw sengl ar gyfer yr amgylchedd a datblygu cynaliadwy i Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Roedd yr arian hwn ar gael gynt i Awdurdodau Lleol o dan gynlluniau grant *Trefi Tacus a Lleoedd Tawelach, Gwyrddach a Glanach*. Bydd Awdurdodau Lleol yn paratoi eu cynlluniau gwario eu hunain ar gyfer yr arian a gaiff ei ddyrannu iddynt o dan y grant refeniw sengl. Yn y rownd ddiweddaraf o gynlluniau gwario a gyflwynwyd i Lywodraeth Leol, ni ddyrannwyd dim o'r arian hwn yn benodol gan Awdurdodau Lleol i roi cynlluniau gweithredu ynghylch ansawdd aer lleol ar waith.

3.9 Dyma rai o'r rhesymau eraill a awgrymwyd wrth drafod ag Awdurdodau Lleol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru am y diffyg cynnydd hyd yn hyn gyda golwg ar Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer:

- rolau wedi'u diffinio'n wael ar lefel Awdurdodau Lleol, ac yn sgil hynny, diffyg cefnogaeth gan bartneriaid mewnol yn yr Awdurdod Lleol, megis timau prifffyrdd a chynllunio a'r rheini sy'n ymwneud yn gorfforaethol â chynllunio strategol ac ariannol ar lefel uwch;
- dim digon o bwrpas a bwriad clir, ac yn sgil hynny, dim digon o ddylanwad a chefnogaeth, ar ran sefydliadau allanol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, GIG Cymru ac Awdurdodau Lleol cyffiniol;
- integreiddio Rheoli Ansawdd Aer Lleol yn wael mewn meysydd polisi ac ymarfer eraill, megis iechyd, cynllunio, trafnidiaeth, rheoleiddio diwydiant, ynni, newid yn yr hinsawdd ac addysg;
- asesiadau risg yn methu ag ystyried problemau llygredd aer ac atebion iddynt yn y cyd-destun ehangaf posibl;
- mwy o allyriadau na'r disgwyl o gerbydau disel a'r traffig ar y ffordd yn cynyddu o hyd;
- diffyg gwybodaeth am yr hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio.

3.10 Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol hefyd o ddiffyg mwy sylfaenol yn y drefn Rheoli Ansawdd Aer Lleol fel y mae ar hyn o bryd. Mae'n gofyn i Awdurdodau Lleol fonitro ansawdd aer ar draws eu tiriogaeth ond nid yw ond yn mynnu eu bod yn cymryd camau os bydd amcanion ansawdd aer cenedlaethol yn cael eu torri. Serch hynny, byddai gostwng lefelau llygredd ar lefel ehangach, nid dim ond yn yr ardaloedd nad ydynt yn cydymffurfio, o fudd i iechyd. Hefyd, mae 'na gost i iechyd y boblogaeth pan adewir i lefelau llygredd aer gynyddu, ni waeth a ydynt yn torri'r amcanion ansawdd aer cenedlaethol neu beidio.

3.11 Nid ydym mewn sefyllfa i fynd i'r afael â'r pethau hyn i gyd ar unwaith. Serch hynny, mae'r ddeddfwriaeth a basiwyd yng Nghymru yn ddiweddar (gweler adran 5 o'r ddogfen ymgynghori hon), sy'n cyd-daro a mwy o ddiddordeb mewn ansawdd aer yng Nghymru yn y misoedd diwethaf, yn cynnig cyfleoedd unigryw a chryfach i wneud cynnydd sylweddol gyda golwg ar y pedwar pwynt bwled cyntaf a restrwyd ym mharagraff 3.9 gan annog cyrff cyhoeddus i ystyried ansawdd aer yn ehangach na dim ond o ran i ba raddau y mae'n cydymffurfio â'r amcanion ansawdd aer cenedlaethol.

- 3.12 Yn benodol, mae gennym bellach ddangosydd cenedlaethol ar gyfer ansawdd aer o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n ystyried i ba raddau y mae'r boblogaeth drwyddi draw'n dod o gysylltiad â llygredd yn yr aer (gweler Atodiad A. Rydym hefyd yn bwriadu ychwanegu, drwy reoliadau, adroddiadau cynnydd blynyddol Awdurdodau Lleol am ansawdd aer a mapiau sŵn cenedlaethol at y rhestr o bethau, ynghyd â'r dangosyddion cenedlaethol, y mae'n rhaid eu hystyried wrth asesu llesiant lleol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

4 Cynllun gweithredu ynghylch sŵn i Gymru

- 4.1 Mae'r Gyfarwydddeb Sŵn Amgylcheddol yn ei gwneud yn ofynnol i aelod wladwriaethau'r UE gynhyrchu mapiau sŵn a chynlluniau gweithredu treigl pum mlynedd ar gyfer y prif ffyrdd, y prif reilffyrdd, y prif feysydd awyr (nid oes prif feysydd awyr yng Nghymru) a ffyrdd, rheilffyrdd a diwydiant mewn ardaloedd trefol mawr. Yn ôl diffiniad y rheoliadau, Gweinidogion Cymru ar hyn o bryd yw'r awdurdod cymwys ar gyfer cynhyrchu mapiau sŵn a chynlluniau gweithredu i Gymru. Rydym wrthi'n gweithio i gynhyrchu mapiau sŵn newydd yn 2017 ar gyfer y prif ffyrdd ar draws Cymru, yn ogystal ag ar gyfer diwydiant mewn ardaloedd trefol mawr. Dylai fod modd cymharu'r rhain â'r mapiau a gynhyrchwyd yn 2012 a byddant yn dangos pa ardaloedd yng Nghymru sydd wedi gweld cynnydd neu ostyngiad sylweddol yn sŵn traffig y ffyrdd dros y pum mlynedd diwethaf.
- 4.2 Yn hytrach na chynhyrchu cynlluniau gweithredu ar wahân ar gyfer prif ffyrdd, prif reilffyrdd ac ardaloedd trefol mawr, a fyddai'n gorgyffwrdd â'i gilydd ac yn anghyflawn ar gyfer Cymru drwyddi draw, cynhyrchodd Llywodraeth Cymru un cynllun gweithredu cyfun ynghylch sŵn i Gymru ar gyfer y cyfnod 2013 hyd at 2018⁷. Cafodd ei ddrafftio ar y cyd, gydag Awdurdodau Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a chyrrff cyhoeddus eraill sydd â chyfrifoldebau ym maes sŵn yn cyfrannu ato. Mae'n cynnig darlun cynhwysfawr o weithgarwch rheoleiddio sŵn yng Nghymru. Draftiwyd y penodau am ardaloedd trefol mawr yn bennaf gan yr Awdurdodau Lleol dan sylw, a'r rhain hefyd sydd wedi enwebu'r lleoedd tawel gwyrdd sydd i'w dynodi gan Weinidogion Cymru yn ardaloedd trefol tawel⁸ y dylid rhoi ystyriaeth arbennig iddynt mewn polisi cynllunio.

⁷ Gweler <http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/noiseandnuisance/environmentalnoise/noisemonitoringmapping/noise-action-plan/?lang=cy> .

⁸ Gweler <http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/noiseandnuisance/environmentalnoise/noisemonitoringmapping/1stoundquietareas/?lang=cy> neu lawrlwythwch y data o <http://lle.gov.wales/home?lang=cy> .

4.3 Hanner ffordd drwy oes bum mlynedd y cynllun gweithredu presennol ynghylch sŵn, llwyddwyd i sicrhau cryn gynnydd:

- Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfarfodydd â rheoleiddwyr sŵn ddwywaith y flwyddyn. Bydd swyddogion iechyd yr amgylchedd o'r rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol Cymru yn mynychu'r rhain yn rheolaidd, yn ogystal â Cyfoeth Naturiol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru Mae siaradwyr gwadd wedi arwain trafodaethau ar bynciau megis y Safon Brydeinig newydd ar gyfer sŵn diwydiannol, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rheoliadau adeiladu, y broses cynllunio yng Nghymru a'r Wythnos Gweithredu ynghylch Sŵn.
- Mae gan Lywodraeth Cymru restr o bobl gyswllt ym maes sŵn mewn awdurdodau cyhoeddus drwy Gymru ac mae'n sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ganfyddiadau ymchwil, canllawiau neu safonau newydd o bwys, sy'n berthnasol i'w rôl.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi llythyr yn egluro *Nodyn Cyngor Technegol (TAN)11: Sŵn* i dynnu sylw at ddiweddariadau ffeithiol ac mae'n croesgyfeirio at ddogfennau eraill. Mae bellach wedi dechrau cynnal adolygiad mwy sylweddol o'r polisi cynllunio cenedlaethol a'r canllawiau ynghylch ansawdd aer a sŵn.
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi llunio set ddata o fannau gwyrdd naturiol hygyrch posibl yng Nghymru. Mae'r set hon wedi'i darparu ar gyfer Awdurdodau Lleol, ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymrwymo i'w diweddarau'n gyson.
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru wedi tynnu sylw deilydd trwydded Gwobrau'r Faner Werdd yng Nghymru, Cadw Cymru yn Daclus, at fanteision lleoedd tawel, gwyrdd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys ariannu Gwobrau'r Faner Werdd yn ei grant ariannu craidd i Cadw Cymru yn Daclus yn 2016/17.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu'r data sy'n gysylltiedig â'i mapiau sŵn 2012 i'w lawrlwytho. Mae wedi cynhyrchu set o ardaloedd blaenoriaeth ar gyfer sŵn traffig y ffyrdd a'r rheilffyrdd⁹ ac wedi rhoi ardaloedd blaenoriaeth rhwydwaith y cefnffyrdd yn nhrefn eu blaenoriaeth ar gyfer camau lliniaru posibl. Serch hynny, mae'r cyfyngiadau presennol ar arian cyhoeddus wedi arafu proses rhoi'r cynlluniau ar waith.

⁹ Gweler <http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epg/noiseandnuisance/environmentalnoise/noisemonitoringmapping/priority-areas/?lang=cy> neu lawrlwythwch y data o <http://lle.gov.wales/home?lang=cy> .

- Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu arian grant i Awdurdodau Lleol ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud â sŵn a phrosiectau lleoedd tawel, gwyrdd. Serch hynny, mae hyn bellach yn rhan o'r grant refeniw sengl ar gyfer gwaith ar yr amgylchedd a datblygu cynaliadwy ac fe gaiff Awdurdodau Lleol ddewis sut mae defnyddio'r arian hwn wrth lunio'u cynlluniau gwario blynyddol.
- Fel y dangosir yn yr ymgynghoriad presennol, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i integreiddio'r polisi sŵn â'r polisi ansawdd aer.
- Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 wedi dod yn gyfraith ac fe gyhoeddwyd cynllun gweithredu¹⁰ i roi rhagor o symbyliad i'w gweledigaeth. Mae'r gwaith hwn yn hybu ffurfiau teithio heb fodur, sydd felly'n dawl.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu ei mapiau sŵn 2012¹¹ ac wedi penderfynu pa rai y bydd gofyn eu diwygio yn 2017. Mae wedi casglu na fyddai'n synhwyrol ailfapio sŵn rheilffyrdd tan ar ôl y gwaith trydaneiddio sydd yn yr arfaeth.

4.4 Eleni, mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio'n bennaf ar newidiadau i'r drefn Rheoli Ansawdd Aer Lleol, ac ni fwriedir disodli'r cynllun gweithredu ynghylch sŵn i Gymru tan 2018. Serch hynny, wrth ymateb i gwestiwn 2 ar y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn adran 7 o'r ddogfen ymgynghori hon, byddem yn croesawu unrhyw sylwadau am ddyfodol y cynllun gweithredu ynghylch sŵn.

¹⁰ Gweler <http://gov.wales/topics/transport/walking-cycling/activetravelact/walkcycleactionplan/?lang=cy> .

¹¹ Gweler <http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epg/noiseandnuisance/environmentalnoise/noisemonitoringmapping/third-round-noise-mapping/?lang=cy> .

5 Deddfwriaeth ddiweddar yng Nghymru

- 5.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn manylu ynglŷn â sut mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus penodol weithio, a chydweithio er mwyn gwireddu gweledigaeth y nodau llesiant cenedlaethol ar gyfer Cymru. Mae gofyn i gyrff cyhoeddus gynllunio a gweithredu ar gyfer y tymor hwy a meddwl yn ochrol am yr hyn y gallant ei gyflawni ar eu pen eu hunain ac ar y cyd.
- 5.2 Er mwyn gwneud cynnydd gwirioneddol tuag at y nodau llesiant cenedlaethol, bydd gofyn newid y gweithgareddau craidd drwy holl strwythurau trefniadaethol cyrff cyhoeddus, mewn meysydd megis y gweithlu, perfformiad a chynllunio ariannol, yn ogystal â chaffael, asedau a rheoli risg. Bydd hyn yn gofyn am arweiniad a gweithredu effeithiol ym mhob sefydliad, nid dim ond ar lefel y Bwrdd a'r Weithrediaeth. Bydd gofyn i bob corff cyhoeddus bennu amcanion llesiant a rhaid cyhoeddi'r rhain erbyn diwedd mis Mawrth 2017. Wrth wneud hynny, bydd gofyn i'r cyrff cyhoeddus sicrhau datblygu cynaliadwy, ac yn sail i hynny, bydd y pum ffordd o weithio: tymor hir, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys.
- 5.3 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi sylfaen statudol i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n cynnwys Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, gwasanaethau tân ac achub a Cyfoeth Naturiol Cymru. Rhaid i bob Bwrdd Gwasanaethau Lleol wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal drwy gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol. Rhaid i'r Byrddau asesu llesiant lleol, sy'n cynnwys llesiant amgylcheddol. Wedyn, bydd gofyn iddynt osod amcanion llesiant a rhoi cynllun llesiant lleol ar waith. Bydd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol rôl gynghori o bwys yn hyn. Rhaid i bob Bwrdd gyhoeddi adroddiad blynyddol am ei gynnydd tuag at gyflawni ei amcanion llesiant.
- 5.4 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol¹² i helpu'r cyrff cyhoeddus sy'n gorfod cydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i ymateb yn gadarnhaol i'w dyletswyddau newydd.
- 5.5 Rhaid i bob asesiad o lesiant lleol gynnwys cyfeiriad at y dangosyddion cenedlaethol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Un o'r rhain yw'r crynodiad cyfartalog o NO₂ y tu allan i gartrefi pobl (gweler Atodiad A). Un arall yw pa mor fodlon yw pobl ar eu hardal leol, ac mae hyn yn cynnwys sŵn.

¹² Gweler <http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/statutory-guidance/?lang=cy> .

- 5.6 Mae Adran 38(3) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnwys rhestr o bethau eraill y mae'n rhaid i'r Byrddau eu hystyried wrth asesu llesiant lleol. Caiff Gweinidogion Cymru ychwanegu at y rhestr hon drwy reoliadau.
- 5.7 Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod priffyrdd ar gyfer traffyrdd a chefnffyrdd yng Nghymru, ac maent o ddifri ynghylch eu cyfrifoldeb dros reoli'r effeithiau a gaiff y ffyrdd hynny ar yr amgylchedd. Bydd Llywodraeth Cymru, lle bo hynny'n briodol, yn trafod yn adeiladol ag Awdurdodau Lleol a/neu Fyrddau Gwasanaethau Lleol unigol (ac mae Gweinidogion Cymru yn wahoddedigion statudol i'r rhain) er mwyn ceisio ateb effeithiol i broblemau ansawdd aer a sŵn sy'n codi yn sgil rhwydwaith y traffyrdd a'r cefnffyrdd.
- 5.8 Ochr yn ochr â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i baratoi, cyhoeddi a rhoi ar waith bolisi adnoddau naturiol cenedlaethol, erbyn mis Mawrth 2017 yn y lle cyntaf. Rhaid i hwn nodi polisiau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd gynaliadwy, ynghyd â'r hyn y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn brif flaenoriaethau, risgiau a chyfleoedd, gan gynnwys yr hyn y dylid ei wneud ynghylch newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth. Rhaid rhoi egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar waith wrth ddrafftio'r ddogfen hon.
- 5.9 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 hefyd yn rhoi dyletswydd statudol i Cyfoeth Naturiol Cymru gynhyrchu **Adroddiad am Gyflwr Adnoddau Naturiol ("SoNaRR")**, yn y lle cyntaf erbyn mis Medi 2016, a datganiadau ardal, a fydd yn hwyluso rhoi'r polisi adnoddau naturiol cenedlaethol ar waith ac yn blaenoriaethau gweithredu ar lefel leol. Cyhoeddir datganiadau ardal ar gyfer Cymru rhwng 2017 a 2019. Bydd y rhain yn darparu sylfaen dystiolaeth hanfodol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy i lywio darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac i ddylanwadu arnynt. Dylai ystyried mapiau sŵn ac asesu ansawdd aer yn lleol ac yn genedlaethol fod yn rhan o'r broses hon. Bydd yn rhaid i asesiadau'r Byrddau Gwasanaethau Lleol o lesiant lleol a chynlluniau datblygu lleol roi sylw i ddatganiadau ardal.

6 Cynigion ar gyfer newid

Mae'r cynigion a ganlyn wedi'u datblygu drwy drafodaethau ar draws adrannau Llywodraeth Cymru a chydag Awdurdodau Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan gynnwys drwy Fforwm Ansawdd Aer Cymru, Grŵp Cyswllt Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol Cymru Gyfan, a'r grŵp rheoleiddwyr sŵn a sefydlwyd o dan y cynllun gweithredu ynghylch sŵn i Gymru 2013-2018:

6.1 Fel sydd wedi digwydd yn ddiweddar mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu symleiddio'r system Rheoli Ansawdd Aer Lleol yng Nghymru drwy:

- symud oddi wrth y cylch tair blynedd presennol o asesiadau diweddarau a sgrinio bob tair blynedd gydag adroddiadau cynnydd yn y ddwy flynedd rhyngddynt, a thuag at system symlach lle bydd gofyn paratoi un adroddiad cynnydd blyneddol;
- newid y dyddiad cyflwyno ar gyfer adroddiadau cynnydd blyneddol o 30 Ebrill i 30 Mehefin, er mwyn osgoi'r pwysau gwaith ar ddiwedd y flwyddyn ariannol;
- dileu'r gofyniad am asesiad manwl lle bydd gan yr Awdurdod Lleol ddigon o wybodaeth eisoes i warantu datgan Ardal Rheoli Ansawdd Aer, a thrwy hynny bydd modd canolbwyntio adnoddau'n gyflymach ar ddatblygu cynllun gweithredu effeithiol ynghylch ansawdd aer lleol.

Credwn y bydd y newidiadau arfaethedig hyn yn ysgafnhau'r baich ar Awdurdodau Lleol heb wneud y drefn Rheoli Ansawdd Aer Lleol yn llai effeithiol. A ydych yn cytuno?

6.2 Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu annog Awdurdodau Lleol i ystyried gwella effeithlonrwydd drwy rannu arbenigedd, cronni adnoddau a chydweithio ar weithgareddau monitro, strategaethau ansawdd aer lleol a pharatoi adroddiadau cynnydd blyneddol. Nid yw Llywodraeth Cymru yn mynnu cael adroddiad cynnydd blyneddol ar wahân ar gyfer pob Awdurdod Lleol, a byddai'n derbyn adroddiadau cynnydd blyneddol a/neu strategaethau ansawdd aer lleol sy'n cynnwys dau Awdurdod Lleol neu ragor.

A ydych yn cytuno bod lle i rai Awdurdodau Lleol weithio'n fwy effeithlon drwy gynhyrchu adroddiadau cynnydd blyneddol a/neu strategaethau ansawdd aer lleol ar y cyd?

6.3 Nid yw'n dderbyniol bod Awdurdodau Lleol yn methu â chyflwyno adroddiadau cynnydd blynyddol a chynlluniau gweithredu ynghylch ansawdd aer lleol mewn pryd, a chydymffurfio â'r canllawiau statudol. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl perfformiad ar lefel uchel a chyson drwy Gymru ac felly mae'n cynnig rhoi'r system a gyflwynwyd yn yr Alban yn ddiweddar ar waith¹³. Ac eithrio lle bydd estyniad wedi'i drafod ymlaen llaw â Llywodraeth Cymru:

- Os bydd adroddiad cynnydd blynyddol (sydd i fod i gyrraedd ar 30 Mehefin) neu gynllun gweithredu ynghylch ansawdd aer lleol (sydd i fod i gyrraedd 18 mis ar ôl datgan Ardal Rheoli Ansawdd Aer) ddau fis yn hwyr, anfonir llythyr atgoffa at yr Awdurdod Lleol.
- Os bydd adroddiad cynnydd blynyddol neu gynllun gweithredu ynghylch ansawdd aer lleol dri mis yn hwyr, anfonir llythyr rhybudd at yr Awdurdod Lleol.
- Os bydd adroddiad cynnydd blynyddol neu gynllun gweithredu ynghylch ansawdd aer lleol bedwar mis yn hwyr, anfonir llythyr rhybudd terfynol at yr Awdurdod Lleol.
- Os bydd adroddiad cynnydd blynyddol neu gynllun gweithredu ynghylch ansawdd aer lleol chwe mis yn hwyr, bydd yr Awdurdod Lleol yn cael cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 85(3) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995.

A ydych yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru orfodi dyddiadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau cynnydd blynyddol a chynlluniau gweithredu ynghylch ansawdd aer lleol yn y dull a ddisgrifiwyd?

6.4 Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu perchnogi'r templed ar gyfer yr adroddiadau cynnydd blynyddol, er mwyn sicrhau ei fod yn fwy cyson â pholisïau Cymru. Mae'r adborth gan Awdurdodau Lleol yn awgrymu bod y fformat presennol yn draul ar amser o ran cofnodi data. Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu cynigion pendant gan Awdurdodau Lleol ar gyfer gwella'r templed, a hynny'n ddelfrydol drwy gydweithio drwy gyfrwng Fforwm Ansawdd Aer Cymru i gytuno ar batrwm haws ei ddefnyddio.

Os ydych yn Awdurdod Lleol, a allwch chi awgrymu ffyrdd o wneud fformat templed yr adroddiad cynnydd blynyddol yn haws ei lenwi heb i hynny ei wneud yn llai defnyddiol i ddarllenwyr?

¹³ Gweler <http://www.gov.scot/publications/2016/03/9717> .

6.5 O ran ei gynnwys, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylai pob adroddiad cynnydd Rheoli Ansawdd Aer Lleol blynyddol o 2017 ymlaen ddatgan:

- a yw llygredd aer a/neu sŵn yn elfen o amcanion llesiant yr Awdurdod Lleol, ac os ydyw, ar ba ffurf, a pha gynnydd sydd wedi'i wneud o ran cyflawni'r amcanion llesiant hynny hyd yn hyn;
- pa bolisiâu sydd gan yr Awdurdod Lleol ar waith i leihau lefelau cyfartalog NO₂, PM_{2.5} PM₁₀ a llygredd sŵn mewn aneddiadau ledled yr Awdurdod Lleol, gan ystyried dangosyddion ansawdd aer Cymru (gweler Atodiad A) a'r mapiau sŵn cenedlaethol;
- sut mae gwaith monitro Rheoli Ansawdd Aer Lleol, dangosyddion ansawdd aer Cymru a'r mapiau sŵn cenedlaethol wedi llywio, neu sut y byddant yn llywio, asesiad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o lesiant lleol.

A ydych yn cytuno y dylai adroddiadau cynnydd blynyddol gynnwys y wybodaeth hon?

6.6 At hynny, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylai unrhyw gynllun gweithredu newydd ynghylch ansawdd aer neu unrhyw un sy'n cael ei ddiweddarau o 2017 ymlaen ddweud:

- sut mae camau'n cael eu datblygu, nid dim ond gyda golwg ar sicrhau cydymffurfiaeth dechnegol â'r amcanion ansawdd aer cenedlaethol, ond hefyd gyda golwg ar sicrhau cymaint o gyfraniad ag y bo modd at ostwng lefelau cyfartalog NO₂, PM_{2.5}, PM₁₀ a llygredd sŵn mewn aneddiadau ar draws yr Awdurdod Lleol, a thrwy hynny sicrhau'r lles gorau i iechyd y cyhoedd;
- sut mae'r cynllun gweithredu ynghylch ansawdd aer lleol yn gyson ag amcanion cynllun llesiant lleol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

A ydych yn cytuno y dylai cynlluniau gweithredu ynghylch ansawdd aer lleol gynnwys y wybodaeth hon?

- 6.7 Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cadw'r holl amcanion ansawdd aer cenedlaethol sydd yn y rheoliadau ar hyn o bryd, ond nid yw'n disgwyl i Awdurdodau Lleol dreulio amser ac adnoddau'n monitro ac yn adrodd am ddata ynghylch llygryddion nad ydynt bellach yn cael eu hystyried yn destun pryder cenedlaethol onid oes rhesymau lleol penodol dros wneud hynny.

A ydych yn cytuno y dylid cadw'r holl amcanion cenedlaethol presennol ar gyfer ansawdd aer ond annog Awdurdodau Lleol i ganolbwyntio ar NO₂ a deunydd gronynnol yn unig?

- 6.8 A dibynnu ar ganlyniad yr ymarfer ymgynghori hwn, byddai Llywodraeth Cymru yn cynnig rhoi'r holl newidiadau uchod ar waith drwy gyhoeddi'r canllawiau polisi newydd ar gyfer Rheoli Ansawdd Aer Lleol ddechrau 2017, ynghyd â thempled newydd ar gyfer yr adroddiad cynnydd blynyddol. Caiff y rhain eu cyhoeddi o leiaf dri mis cyn y dyddiad cyflwyno newydd, sef 30 Mehefin.

A ydych yn cytuno y dylem gyflwyno'r newidiadau arfaethedig drwy gyfrwng canllawiau statudol mewn pryd ar gyfer adroddiad y flwyddyn nesaf?

- 6.9 Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylai'r canllawiau polisi newydd bwysleisio'r manteision gwell i iechyd y cyhoedd sy'n debygol o ddeillio o'r camau i leihau llygredd aer a sŵn mewn ffordd gyfannol ar draws ardal ehangach, a hynny y tu hwnt i'r rheini y disgwylir iddynt ddeillio o gamau nad ydynt ond yn ceisio sicrhau cydymffurfiaeth dechnegol â'r amcanion ansawdd aer cenedlaethol mewn Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer.

A ydych yn cytuno y dylid rhoi rhagor o bwyslais ar bwysigrwydd lleihau llygredd aer a sŵn i'r boblogaeth yn ei chyfanrwydd ochr yn ochr â chymryd camau'n lleol i fynd i'r afael â'r mannau hynny lle mae'r llygredd ar ei waethaf?

- 6.10 Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylai'r canllawiau polisi newydd bwysleisio'r angen i'r Byrddau Iechyd Lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru helpu Awdurdodau Lleol i gryfhau effeithiolrwydd cynlluniau gweithredu ynghylch ansawdd aer lleol a strategaethau lleol i leihau'r effaith ar y boblogaeth drwyddi draw. Gellid cynnig y cymorth hwn drwy weithio o fewn Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

A ydych yn cytuno y dylid rhoi rhagor o bwyslais ar bwysigrwydd gwaith partneriaeth?

- 6.11 Ar yr un pryd, bydd cyfeiriadau at dystiolaeth yn y canllawiau polisi interim presennol yn cael eu diweddarau, er enghraifft er mwyn adlewyrchu'r dystiolaeth fwy diweddaraf am effeithiau parthau 20 mya ar ansawdd aer lleol.

A oes unrhyw feysydd eraill lle y tybiwch fod angen diweddarau ein canllawiau polisi presennol

(<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/airqualitypollution/airquality/guidance/?lang=cy>)?

- 6.12 Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig diwygio'i chanllawiau ynghylch y grant refeniw sengl i Awdurdodau Lleol ar gyfer yr amgylchedd a datblygu cynaliadwy, gan bwysleisio'i bod yn disgwyl gweld cynlluniau gweithredu ynghylch ansawdd aer lleol effeithiol yn cael eu rhoi ar waith, lle bydd Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer wedi'u datgan.

A ydych yn cytuno y byddai'n help pwysleisio'r ffynhonnell ariannu bosibl hon i roi cynlluniau gweithredu ynghylch ansawdd aer lleol ar waith?

- 6.13 Wrth i gynllun gweithredu ynghylch sŵn i Gymru 2013-2018 nesáu at ei flwyddyn olaf, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gofyn i'r Awdurdodau Lleol mewn ardaloedd trefol mawr adolygu a diweddarau'r penodau a ysgrifennwyd ganddynt yn 2013, a oedd yn crynhoi nifer y cwynion a gafwyd am sŵn, lefelau presennol y gwasanaeth i'r cyhoedd, a'r ymrwymadau i ystyried sŵn mewn cynlluniau datblygu lleol ac mewn rhaglenni rhoi wyneb newydd ar y ffyrdd. Gofynnid i'r Awdurdodau Lleol hefyd asesu unrhyw newidiadau sydd o bosibl wedi bod dros y pum mlynedd diwethaf. Byddai hyn nid yn unig yn llywio cynllun gweithredu ynghylch sŵn i Gymru yn y dyfodol ond hefyd y cynlluniau llesiant, sydd hefyd i fod i gael eu paratoi yn 2018.

A ydych yn cytuno bod angen monitro'r hyn sydd wedi newid o ran rheoleiddio sŵn yn ein trefi a'n dinasoedd mwyaf dros y pum mlynedd diwethaf?

- 6.14 Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig rhoi mwy o rôl i Cyfoeth Naturiol Cymru o ran darparu a dehongli mapiau sŵn cenedlaethol Cymru, ochr yn ochr â'i ddyletswyddau statudol newydd i baratoi SoNaRR a datganiadau ardal. Serch hynny, nid oes modd penderfynu ynglŷn â manylion unrhyw fapiau sŵn cenedlaethol yn y dyfodol nes inni wybod a fydd y Deyrnas Unedig yn dal i orfod cydymffurfio â Chyfarwydddeb Sŵn Amgylcheddol yr Undeb Ewropeaidd neu beidio.

A ydych yn cytuno y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ymwneud mwy ag unrhyw rowndiau mapio sŵn cenedlaethol yn y dyfodol?

- 6.15 Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig ychwanegu, drwy reoliadau, adroddiadau cynnydd blynyddol Awdurdodau Lleol am ansawdd aer a mapiau sŵn cenedlaethol at y rhestr o bethau yn adran 38(3) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol y bydd yn rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eu hystyried wrth asesu llesiant lleol.

A ydych yn cytuno y dylid ystyried adroddiadau blynyddol Awdurdodau Lleol am ansawdd aer a mapiau sŵn cenedlaethol wrth iddynt asesu llesiant lleol, yn ogystal â'r dangosydd cenedlaethol yn Atodiad A?

7 Ffurflen ymateb i'r ymgynghori

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

- C1.** Yn adran 6 o'r ddogfen ymgynghori hon, gofynnwyd nifer o gwestiynau am y newidiadau yr ydym yn ystyried bwrw ymlaen â nhw yn ystod blwyddyn gyntaf y Cynulliad pum mlynedd hwn, ochr yn ochr ag adolygu polisi cynllunio cenedlaethol a chanllawiau ynghylch llygredd aer a sŵn.

Defnyddiwch y lle hwn i ateb y cwestiynau a ofynnwyd yn adran 6 o'r ddogfen hon. A oes unrhyw beth y dylem fod yn ei wneud yn wahanol?

- C2.** Mae cryn ansicrwydd ynghylch i ba raddau y byddwn yn dal i orfod cadw at ein dyletswyddau presennol yn yr Undeb Ewropeaidd gyda golwg ar lygredd aer a sŵn ar ôl i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Felly, ni allwn ddweud yn fanwl eto pa gamau pellach y bwriadwn fwrw ymlaen â nhw yn ystod ail, trydedd, pedwaredd a phumed flwyddyn y Cynulliad hwn.

A chadw'r ansicrwydd hwn mewn cof, ynghyd â'r wybodaeth a roddwyd am y sefyllfa bresennol yng Nghymru yn adrannau 1 i 5 ac Atodiad A o'r ddogfen ymgynghori, dywedwch wrthym pa gamau pellach, os o gwbl, yr hoffech eu gweld gyda golwg ar lygredd aer a sŵn yn y pum mlynedd nesaf?

- C3.** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes materion cysylltiedig eraill nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y lle hwn i sôn amdanynt:

Atodiad A Dangosyddion ansawdd aer Cymru

- A.1 Bob blwyddyn bydd y model Mapio Hinsawdd Llygredd yn cyfrifo crynodiadau'r llygryddion ar gyfartaledd ar gyfer pob cilomedr sgwâr yn y Deyrnas Unedig. Bydd y model yn cael ei raddnodi ar sail mesuriadau a gaiff eu tynnu o rwydwaith monitro ansawdd aer cenedlaethol y Deyrnas Unedig. Mae cyfartaledd graddnodedig y data ar gyfer llygredd aer ym mlynnyddoedd y gorffennol a rhagor o wybodaeth am y model ar gael ar-lein yn <https://uk-air.defra.gov.uk/data/pcm-data>.
- A.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r data cyhoeddedig hyn i neilltuo crynodiad cyfartalog o NO₂, PM_{2.5} a PM₁₀ i bob anheddiad preswyl yng Nghymru ar sail y cilomedr sgwâr y mae ynddo. Mewn gwirionedd, bydd ansawdd yr aer yn amrywio o fewn unrhyw gilomedr sgwâr penodol, a dibynnu ar ba mor agos yw'r annedd at ffyrdd prysur a ffynonellau llygredd aer eraill. Felly, ni ddylid tybio bod y gwerthoedd hyn a neilltuir yn gywir ar gyfer unrhyw annedd unigol. At hynny, ni ddylid cymharu'r crynodiadau cyfartalog o'r model ar gyfer cilomedr sgwâr penodol â mesuriadau'r ffyrdd prysur yn yr un cilomedr sgwâr.
- A.3 Ar gyfer pob un o ardaloedd cynnyrch y cyfrifiad, rydym wedi cyfrifo cyfartaledd crynodiadau'r llygryddion sy'n gysylltiedig â phob annedd o'i mewn i roi crynodiad cyfartalog o NO₂, PM_{2.5} a PM₁₀ ar draws ardal cynnyrch y cyfrifiad.
- A.4 Ar gyfer pob Awdurdod Lleol, rydym wedyn wedi cyfrifo cyfartaledd wedi'i bwysoli ar gyfer y boblogaeth dros ardaloedd cynnyrch y cyfrifiad er mwyn cael y crynodiad cyfartalog o NO₂, PM_{2.5} a PM₁₀ ar sail y mannau lle mae pobl yn byw yn yr Awdurdodau Lleol hynny. Rydym hefyd wedi ailadrodd yr un broses dros holl ardaloedd cynnyrch y cyfrifiad, er mwyn cael ffigur y gellir ei gymharu ar gyfer Cymru gyfan.
- A.5 Oherwydd ein bod wedi modelu llygredd aer yn gyson ers nifer o flynyddoedd, gallwn wneud y cyfrifiad hwn ar wahân ar gyfer pob blwyddyn o ddata a phenderfynu ar gyfer pob un o ardaloedd cynnyrch y cyfrifiad, ar gyfer pob Awdurdod Lleol ac ar gyfer Cymru gyfan a ydym yn meddwl bod y crynodiad cyfartalog o NO₂, PM_{2.5} a PM₁₀ lle mae pobl yn byw yn codi ynteu'n gostwng.

- A.6 Mae'r crynodiad cyfartalog o NO₂ lle mae pobl yn byw yn ddangosydd cenedlaethol at ddibenion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Fframwaith Canlyniadau Iechyd Cyhoeddus ar gyfer Cymru. O dan y drefn Rheoli Ansawdd Aer Lleol, anogir Awdurdodau Lleol i roi sylw penodol hefyd i'r crynodiad cyfartalog o PM_{2.5} lle mae pobl yn byw, oherwydd nad oes dim amcanion ansawdd aer cenedlaethol yn y rheoliadau ar gyfer y llygrydd hwn.
- A.7 Gellir gweld y mapiau ansawdd aer a gynhyrchir gan y model PCM ar-lein yn <https://uk-air.defra.gov.uk/data/gis-mapping> .

Nitrogen deuocsid (NO₂)

Tabl 1 Y crynodiad cyfartalog o NO₂ mewn lleoliadau anheddau preswyl (µg/m³)

Awdurdod Lleol	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014
Caerdydd	22	22	23	24	23	22	22	21
Casnewydd	24	23	25	25	22	22	20	19
Caerffili	15	15	16	16	15	14	14	12
Bro Morgannwg	14	13	14	15	13	13	13	12
Tor-faen	15	14	16	16	15	14	13	12
Sir y Fflint	13	13	14	16	13	13	12	12
Castell-nedd Port Talbot	14	13	13	14	13	13	12	12
Pen-y-bont ar Ogwr	15	14	14	15	13	13	12	12
Abertawe	14	14	13	14	13	13	12	11
Rhondda Cynon Taf	13	13	14	14	13	13	12	11
Wrecsam	13	12	12	14	12	12	11	10
Sir Fynwy	14	12	13	13	12	12	11	10
Merthyr Tudful	13	12	12	13	12	11	11	10
Blaenau Gwent	13	13	13	14	11	11	10	9
Sir Benfro	9	9	9	9	9	10	9	8
Conwy	10	9	8	9	8	8	8	8
Sir Ddinbych	9	9	8	9	8	8	8	7
Sir Gaerfyrddin	9	9	9	9	8	8	8	7
Powys	8	7	7	8	7	6	6	5
Ceredigion	7	6	6	6	6	6	6	5
Gwynedd	7	7	5	6	6	6	6	5
Ynys Môn	7	7	6	7	5	5	5	5
Cymru	14	13	13	14	13	13	12	11

Ffynhonnell: *Modelled air quality data, Defra*
Small area population estimates, ONS
Dwellings data, AddressBase

Mae'r Awdurdodau Lleol a ganlyn wedi datgan Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer nad ydynt yn cydymffurfio neu sydd mewn perygl o fethu a chydymffurfio â'r amcan ansawdd aer cenedlaethol blynyddol ar gyfer cymedr NO₂ sef 40 µg/m³:

Abertawe
 Bro Morgannwg
 Caerdydd

Caerffili
 Casnewydd
 Powys

Rhondda Cynon Taf
 Sir Benfro
 Sir Fynwy

Sir Gaerfyrddin

Deunydd gronynnol mân (PM_{2.5})

Tabl 2 Y crynodiad cyfartalog o PM_{2.5} mewn lleoliadau anheddau preswyl (µg/m³)

Awdurdod Lleol	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014
Casnewydd	10	11	11	11	12	11	11	11
Caerffili	9	10	10	10	10	9	11	11
Caerdydd	10	11	11	11	11	10	11	11
Rhondda Cynon Taf	9	9	9	9	10	9	11	11
Tor-faen	9	10	10	10	10	10	11	10
Merthyr Tudful	9	9	9	9	10	9	11	10
Blaenau Gwent	9	9	9	9	10	9	11	10
Sir Fynwy	9	9	10	9	10	9	10	10
Castell-nedd Port Talbot	9	9	9	9	9	9	10	10
Pen-y-bont ar Ogwr	9	9	9	9	9	9	10	10
Abertawe	9	9	9	9	9	9	9	9
Wrecsam	8	8	9	9	9	9	9	9
Bro Morgannwg	9	9	10	9	10	9	10	9
Sir y Fflint	8	9	9	9	10	9	9	9
Sir Gaerfyrddin	8	8	8	9	9	8	9	9
Sir Benfro	8	8	8	8	8	8	9	8
Sir Ddinbych	7	7	8	8	8	8	9	8
Powys	7	7	8	8	8	8	8	8
Conwy	7	7	7	8	8	7	8	8
Ceredigion	7	7	7	7	8	7	8	8
Gwynedd	6	6	7	7	7	7	8	7
Ynys Môn	6	6	7	7	7	7	7	7
Cymru	8	9	9	9	9	9	10	10

Ffynhonnell: *Modelled air quality data, Defra*
Small area population estimates, ONS
Dwellings data, AddressBase

Yn agos at ffyrdd, mae'r rhan fwyaf o'r deunydd gronynnol yn cael ei phriodoli i allyriadau o gerbydau, a'r gronynnau'n cael eu hallyrru wrth hylosgi tanwydd ffosil, ac yn sgil traul ar freiciau a theiars a llwch sy'n codi o'r ffyrdd wrth i gerbydau yrru ar hyd-ddynt. Mewn ardaloedd gwledig, mae adweithiau cemegol yn yr aer golygu bod rhagor o ddeunydd gronynnol yn cael ei gynhyrchu. Amcangyfrifwyd bod oddeutu 1,300 o farwolaethau ac 13,500 o flynyddoedd o fywyd yn cael eu colli oherwydd PM_{2.5} bob blwyddyn.

Deunydd gronynnol (PM₁₀)

Tabl 3 Y crynodiad cyfartalog o PM₁₀ mewn lleoliadau anheddau preswyl (µg/m³)

Awdurdod Lleol	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014
Casnewydd	19	17	16	16	17	14	16	15
Caerdydd	18	16	16	16	17	14	16	15
Caerffili	17	15	15	14	15	13	15	15
Rhondda Cynon Taf	16	14	14	13	14	12	15	14
Tor-faen	17	15	15	14	15	13	15	14
Merthyr Tudful	16	14	14	13	14	12	15	14
Blaenau Gwent	16	14	14	13	14	12	14	14
Sir Fynwy	16	14	14	13	15	13	14	14
Castell-nedd Port Talbot	16	14	13	13	14	12	14	14
Abertawe	16	14	13	13	14	12	13	13
Pen-y-bont ar Ogwr	16	14	14	13	14	12	14	13
Sir y Fflint	15	13	14	14	15	13	13	13
Bro Morgannwg	16	14	14	13	14	12	13	13
Wrecsam	14	13	13	13	14	12	13	13
Sir Gaerfyrddin	15	13	12	12	13	12	13	13
Sir Benfro	15	13	12	13	13	12	13	13
Sir Ddinbych	13	12	12	11	12	11	12	12
Powys	13	12	12	11	12	11	12	11
Conwy	13	11	11	11	12	11	11	11
Ceredigion	13	12	11	11	12	11	11	11
Ynys Môn	12	11	10	10	11	10	11	11
Gwynedd	12	11	10	10	11	10	11	11
Cymru	16	14	14	13	14	12	14	13

Ffynhonnell: *Modelled air quality data, Defra*
Small area population estimates, ONS
Dwellings data, AddressBase

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi datgan Ardal Rheoli Ansawdd Aer ar gyfer diffyg cydymffurfio neu risg o fethu â chydymffurfio â'r cymedr 24-awr ar gyfer PM₁₀ sef amcan ansawdd aer cenedlaethol o 50 µg/m³ na ddylid ei groesi fwy na 35 gwaith y flwyddyn, yn yr ardal sy'n gorchuddio'r rhan fwyaf o'r tir a'r eiddo rhwng y gwaith dur a thraffordd yr M4.